**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â  Emma Sullivan
(Rhif Ffôn: 01443 864420   Ebost: sullie@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.  Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n siarad yn ystod y Pwyllgor Cynllunio ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: www.caerffiili.gov.uk

**Mae croeso i chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, mae angen rhybudd cyfnod lleiafswm o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny..**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod y **Cyngor** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams **Dydd Mawrth, 16eg Tachwedd, 2021** am **5.00 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**
PRIF WEITHREDWR

**A G E N D A**

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Cyhoeddiadau’r Maer.

3 I dderbyn deisebau o dan Reol Gweithdrefn 28(3).

4 Cyflwyno Gwobrau.

5 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

6 Cyngor 5 Hydref 2021.

1 - 18

7 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021.

19 - 22

8 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10 (2).
Cwestiwn i Arweinydd y Cyngor gan y Cynghorydd G. Simmonds

Gofyn i Arweinydd y Cyngor, pa sancsiynau sydd ar gael i'r Arweinydd, y Cabinet a'r Cyngor, pan ddangosir bod gweision cyhoeddus sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gweithredu y tu allan i bolisi neu strategaeth gymeradwy yr Awdurdod.

Isod, fe welwch chi adran o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweision Cyhoeddus, a'u cyfrifoldebau i'r Cyngor a'r holl Gynghorwyr.

**COD YMDDYGIAD I GYFLOGEION**
(Daw'r testun Cymraeg canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor.)

2. **Cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion**

2.2 Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn rhannu cyfrifoldeb i gydweithio i gyflawni penderfyniadau er lles y Cyngor a'r ardal mae'n ei gwasanaethu. Mae'r Swyddogion yn gwasanaethu'r Cyngor yn gyfan ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n wleidyddol niwtral wrth roi cyngor proffesiynol a chymorth cyffredinol i'r holl Aelodau.
2.3 Waeth beth fo eu maint, mae gan yr holl grwpiau gwleidyddol hawl i gael eu trin yn gyfartal gan y Swyddogion. Mae gan yr holl grwpiau gwleidyddol a'r Aelodau nad ydynt mewn grwpiau gwleidyddol hawl i gael gwybodaeth oddi wrth y Swyddogion trwy sianelau sefydledig y Cyngor i'r un graddau, ac mae ganddynt hawl i alw ar gymorth y Swyddogion i'w cynorthwyo. Nodir y sianelau hyn yn nes ymlaen yn y protocol. Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Diwygiwyd: Mai 2021 Rhan 5 – Codau a Phrotocolau Tudalen 84

**3. SAFONAU**

3.1 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf oddi wrth bob cyflogai cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. **Rôl cyflogeion o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol.** Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Mae cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod hwn, gan gydnabod dyletswydd holl gyflogeion y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith. **(Mae hwn yn un o ofynion y Cod Statudol)**

**4. DATGELU GWYBODAETH**

**4.1 Bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth ac wrth wneud penderfyniadau a ddylai fod yn arferol yn yr awdurdodau perthnasol.** Er hynny, fe all gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly yn amhriodol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Os oes angen bod yn gyfrinachol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion neu gyrff. (Mae hwn yn un o ofynion y Cod Statudol)
**4.2 Derbynnir yn gyffredinol mai llywodraeth agored sydd orau.** Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i rai mathau o wybodaeth fod ar gael i aelodau, archwilwyr, adrannau llywodraethau, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Fodd bynnag, rhaid rhoi sylw dyledus i'r gofynion deddfwriaethol a'r cyngor canlynol.

**5. AMHLEIDIOLDEB GWLEIDYDDOL**
**5.1 Rhaid i gyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol, p'un a ydynt o dan gyfyngiad gwleidyddol neu beidio, ddilyn holl bolisïau'r awdurdod sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon** a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Os yw'r cyflogeion cymwys o dan gyfyngiad gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol. (Mae hwn yn un o ofynion y Cod Statudol)
**5.2 Mae cyflogeion yn cael eu cyflogi i wasanaethu'r Cyngor yn gyfan. Mae'n dilyn bod rhaid iddynt wasanaethu'r holl Aelodau Etholedig ac nid dim ond y rhai yn y grŵp rheoli.** Rhaid iddynt sicrhau y caiff hawliau unigol pob Cynghorydd eu parchu. Rhaid rhoi sylw i hawliau Cynghorwyr a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor; gall y Swyddog Monitro roi cyngor ar y rhain.
**5.4 Rhaid i'r holl gyflogeion, (p'un a yw eu swyddi o dan gyfyngiad gwleidyddol neu beidio), ddilyn holl bolisïau'r Cyngor sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith.**

9 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10(4).
Cwestiwn i'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo gan y Cynghorydd C. Bezzina.

A all y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo ddweud wrthym ni ba gamau y bydd y Cyngor hwn yn eu cymryd i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus?

Cwestiwn i'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo gan y Cynghorydd K. Etheridge.

Gofyn i'r Aelod Cabinet egluro a diffinio'r sgyrsiau archwiliadol y mae ef a'r Aelod o'r Senedd ar gyfer Caerffili wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan gynnwys y cynnwys mewn perthynas â llwybr trafnidiaeth posibl o bob ardal yn Lleoliadau Bwrdeistref Sirol Caerffili i Ysbyty'r Faenor oherwydd mae'r ohebiaeth rydw i wedi'i chael yn cyfeirio at Gaerffili yn unig?

To receive and consider the following reports: -

10 Derbyn Hysbysiad o Gynnig – Adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor a Phrotocol Aelodau.
23 - 28

11 Hysbysiad o Gynnig - Penderfyniad Cynllunio am Nine Mile Point.

29 - 34

12 Derbyn Hysbysiad o Gynnig - Canolfannau Dydd.
35 - 42

13 Derbyn Hysbysiad o Gynnig - Ymgyrch Busnes Ynni Lleol. 43 - 48

14 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Llythyr Blynyddol 2020/2021. 49 - 62

15 Aelodaeth a Threfniadau Cadeirio y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddod i rym o fis Mai 2022. 63 - 66

Nodi'r adroddiad canlynol a ystyriwyd yn eitem frys ac eithriedig gan y Cabinet: -

16 Prynu Tir yn Groveside Road, Oakdale, Coed Duon ar gyfer Darpariaeth Rhandiroedd Amgen 67 - 92

**Cylchrediad:**
Pob Aelod a Swyddog Priodol

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.